# Croeso i
# Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn.

Llawlyfr gwybodaeth
Meithrin



**Datganiad Cenhadaeth: Byddwch Bopeth Gallwch Fod.**

Gweledigaeth Ysgol:

Ein **gweledigaeth** yn **Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn** yw meithrin, ysbrydoli, cefnogi a herio ein holl ddisgyblion gan ddefnyddio profiadau dysgu pleserus, ystyrlon ac amrywiol. Gwneir hyn er mwyn iddynt ddod yn ddysgwyr gydol oes sy'n cyrraedd eu llawn botensial mewn byd sy'n newid yn barhaus.


Mae cymuned ein hysgol yn **deulu** sy'n cynnwys plant, rhieni, llywodraethwyr, athrawon a'r gymuned. Rydym yn cydweithio i greu amgylchedd cynhwysol, amrywiol a meithringar lle mae lles a hapusrwydd pob plentyn yn ein gofal wrth wraidd popeth a wnawn.

Gwneir hyn yng nghyd-destun ein cymuned leol (ein **Cynefin** ) a'n lle ni o fewn Cymru a'r byd ehangach. Ein nod yw **gwreiddio arferion da** yn **natblygiad moesol, cymdeithasol ac emosiynol ein plant.**

Crëir hyn drwy'r Cwricwlwm i Gymru a'i bedwar diben. Bod ein plant yn dod yn:

- **Dysgwyr Uchelgeisiol a Galluog.**
- **Cyfranwyr Mentrus a Chreadigol.**
- **Dinasyddion Cymru a'r Byd â gwybodaeth foesegol.**
- **Unigolion iach a hyderus**

Casglwyd y geiriau hyn gan gymuned yr ysgol
a'i gosod yn arwyddlun ein hysgol - coeden.
*"O fes bychain daw'r dderwen nerthol".*



Caiff rhain eu rhagamcanu yn yr ysgol trwy ein **gwerthoedd craidd**.

- Meithrin a hybu iechyd a lles yr holl ddisgyblion a staff mewn amgylchedd diogel, cefnogol ac ysgogol.
- Ymgysylltu'n llawn ac yn gyfrifol fel dinasyddion gweithgar a pharchus o gymuned leol, genedlaethol a byd-eang gynhwysol.
- Annog sgiliau creadigol, beirniadol a chydweithredol, gan groesawu heriau a dathlu cyflawniadau'r holl ddisgyblion a staff.
- Sefydlu cymuned ddysgu lle mae'r holl ddisgyblion a staff yn hyderus i fynegi syniadau, cymryd risgiau a myfyrio, wrth gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd i herio eu hunain i gyrraedd y safonau uchaf.

Mae’r weledigaeth a’n gwerthoedd craidd yn cael eu hadolygu’n rheolaidd gan gymuned ein hysgol i fod yn ymatebol a hyblyg mewn byd sy’n newid yn barhaus.

# Gwybodaeth pwysig

**Diwrnod Ysgol:**

Sessiwn bore 9.00—12.00

Sessiwn Prynhawn 13.15-15.30

**Gwisg Ysgol:**

Trowses, sgert neu ffroc llwyd

Crys-t polo glas golau

Jwmper/Cardi Glas

**Ymarfer Corff:** Dydd Mercher

Plant i wisgo dillad synhwyrol i'r Ysgol ar y diwrnod yma. E.e Crys-t, Jwmper Leggins, jogging bottoms a esgidiau chwarae.

**Cinio Ysgol:**

Mae yna Bwydlen pythefnos sydd yn cael ei rhannu gyda rhienu fel eich fod yn gallu gweld beth mae eich plentyn yn bwyta. Fe fydd angen talu am hyn ar-lein ac fe fyddwch chi yn derbyn cod i wneud hyn yn ystod yr wythnosau cyntaf. Pris Cinio Ysgol yw £13.50 yr wythnos.

# Sut gallwch chi helpu eich plentyn?

1) Trafodwch yr Ysgol gyda'ch plentyn gan son am yr hwyl y bydden nhw'n cael yno.

2) Dysgwch eich plentyn i ddefnyddio'r ty bach yn annibynnol gan cynnwys allu ofyn i fynd.

3) Dysgwch eich plentyn i ruthr dwr ty bach ac i olchi dwylo yn gywir.

4) Helpwch eich plentyn i adnabod ei enw a llun o'i hunan.

5) Rhowch enw ar popeth sydd yn perthyn i'ch plentyn gan cynnwys ei esgidiau.

6) Addysgwch eich plentyn i wisgo a dadwisgo cot yn annibynnol. (Mae lluniau ar y tudalen nesaf.)

7) Dangoswch eich plentyn sut i ddefnyddio cyllell a fforc yn gywir.

8) Helpwch eich plentyn i allu yfed allan o botel, gwelltyn a cwpan.

9) Rhowch gyfle i'ch plentyn ddefnyddio digon o offer creadigol adre, ee creonau, pensiliau, papur, glud, siswrn a phaent.

10) Rhowch cyfle i'ch plentyn i weithio ar ei sgiliau mudol man (Fwy o wybodaeth ar tudalenau 8 a 9.

# Sut i wisgo cot.



# Pwysigrwydd Sgilaiu Mudol Man

Beth yw Sgilaiu Mudol Man?

Sgilaiu mudol man yw'r proses o dal, gafael a trin offer gan defnyddio'r cyhyrau yn y bys bawd, bys cyntaf ar bys canol. (tripod grip)







Pam ei fod nhw yn bwysig?

Mae sgiliau mudol man yn Sylfaen hanfodol o addysg, hunan-ofal a annibyniaeth.  Mae sgiliau mudol man hefyd yn helpu plant i ddatblygu cydsymudiad rhwng y llaw ar llygaid, yn annog sgiliau datrys problemau ac yn camau pwysig tuag at ysgrifennu.


# Sut allwch chi helpu eich plentyn gyda'i Sgilaiu Mudol Man?

Dyma enghreifftiu o weihgareddau allwch chi wenud yn y ty.









# Pwysigrwydd darllen i'ch plentyn..

Mae darllen i'ch plentyn yn gweithgaredd bwysig iawn. Mae darllen i'ch plentyn yn helpu nhw i

- adeiladu geirfa a sgiliau iaith
- ddatblygu dychymug .
- ddatblygu ei sgiliau cyfathrebu
- ddatblygu hunanhyder
- Magu sgilaiu gwrado da

.

Mae hi hefyd yn bwysig i trafod straeon gyda'ch plant, i adael i'ch plentyn i ddweud y stori yn ngeiriau ei hunan ac i anoog eich plentyn i trin llyfr gan cynnwys gadael iddynt troi'r tudalennau wrth i chi darllen iddynt.











# System ffoneg




Fel ysgol rydym ni yn defnyddio system ffoneg Tric a Chlic i addysgu eich plant sut i darllen ac ysgrifennu. Rhan bwysig o Tric a Chlic yw sgript ffurfio llythrennau i fodelu sut mae siap llythyren yn cael ei ffurfio.

Dyma'r sgript rydyn ni'n defnyddio i ffurfio llythrennau. Os ydych yn ymarfer ffurfio llythrennau adref plis wnewch chi ddefnyddio'r sgript el bod cysondeb rhwng yr Ysgol a chartref.

Diolch yn fawr am eich cyd-weithrediad.

| | | |
|---|---|---|
| m |  | I lawr ac mae'r mwnci'n neidio ac mae'n neidio<br><br>Down and then the monkey jumps and jumps |
| a |  | Yn grwn fel afal ac i lan a lawr y ddeilen.<br>Round like an apple then up and down the leaf |
| p |  | Yn hir ac mae angen pnen.<br>Long and we need a head |
| h |  | Yn hir ac yna hop<br>Long and then a hop |
| t |  | I lawr corff tedi yna cic,<br>cofiwch dwy fraiche.<br>Down the teddies body and then cic, don't forget its 2 arms. |
| e |  | Fel trwnc yr eliffant yn syth at draws ac o amgylch.<br>Like the eliphants trunk, straight across and then around. |
| c |  | Fel clust i chlywed chi<br>Like a ear to hear you with |

| | | |
|---|---|---|
| r |  | I lawr a chodi fel roced.<br><br>Down and then take off like a rocket |
| y |  | Ymbarel wyneb i waered a choes hir<br><br>Upside down umbarel with a long leg |
| n |  | I awr a neidio<br><br>Down and a jump |
| b |  | Ai chefn yn syth a bola mawr.<br><br>A straight back and a big belly |
| g |  | Yn grwn a'i gwallt yn hir<br><br>Round and her hair is long |
| w |  | I lawr i fyny, i lawr i fyny<br><br>Down and up, down and up |
| l |  | Mae'r lori 'n mynd lawr y lon<br><br>A lorry going down the lane |

| | | |
|---|---|---|
| o |  | Yn grwn fel oren<br>Round like an orange |
| s |  | Yn sleifio i lawr y sleid<br>Slinking down the slide |
| d |  | Ai du ol yn fawr ac i lan a lawr<br>With his large backside and up and down his back |
| i |  | I lawr coes yr iar a dot fel pen.<br>Down the chickens head and a dot for it's ahead |
| u |  | O gwmpas y bowlen uwd ac i lawr y llwy<br>Round the bowl and down the spoon |
| j |  | I lawr gwddf Jaci jiraff dot yn ei lygaid<br>Down the giraffs neck and a dot for an eye |
| f |  | Mae'r fan yn mynd i lawr i lawr, croesi'r croesfordd.<br>The van goes dwon and across the crossroads |

# Cyfathrebu

Fel Ysgol rydym ni yn defnyddio system Classdojo i cadw mewn cysylltiad a chyfathrebu gyda rhienu. Fe fydd eich plentyn yn dod adref yn ystod yr wythnos cyntaf gyda gwybodaeth er mwyn i chi allu ymuno ar system Dojo.  Byddwn yn defnyddio hyn i rhoi gwybodaeth i chi am ddigwyddiadau yn yr ysgol ac i ddangos lluniau o weithgareddau i chi. Mae hefyd modd i chi negeseuo yr athrawes dosbarth yn uniongyrchol trwy'r system yma.

Mae hefyd gyda ni system neges tecst felly plis wnewch yn siwr fod eich manylio cyswllt yn gywir.

Rydyn ni hefyd yn rhoi cylchlythry ysgol ar ein wefan yn wythnosol.

Os oes unrhyw broblem  neu cwestiwn plis gofynnwch.

Diolch